



## Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Fflur Lawlor

E-bost/E-mail: [clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk](mailto:clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk)

### Cyfarfod mis Mawrth Cyngor Tref Tregaron / Tregaron Town Council March Meeting Nos Lun / Monday 18.03.2024

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

### COFNODION CYFARFOD CYNGOR MIS MAWRTH / MARCH COUNCIL MEETING MINUTES

Eitem / Item	Gweithred / Action
<p>1. <b>CROESO / WELCOME</b> Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd / Chair) Catherine Hughes, Dafydd Richards, Dewi Evans, Rhydian Wilson, Gwion James, Rhian Jones, Meirian Morgan &amp; Rhian Hughes</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>PSCO John Evans</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies, Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion County Council Local Member</p>	
<p>2. <b>YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES</b> Cyng/Cllr. Owain Pugh &amp; Sian Jones</p>	
<p>3. <b>MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS</b></p> <p>3.1 – Estynnwyd llongyfarchiadau i Ysgol Henry Richard a'r holl unigolion a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Cylch yr Urdd yn ddiweddar. <i>Congratulations was extended to Ysgol Henry Richard and all individuals that were successful at the recent 'Eisteddfod Cylch yr Urdd'.</i></p> <p>3.2 – Estynnwyd llongyfarchiadau i Sara Davies, Ysgol Henry Richard ar ei llwyddiant diweddar yn ennill cystadleuaeth Cân i Gymru ar S4C. <i>Congratulations was extended to Sara Davies, Ysgol Henry Richard for her recent success in winning the 'Can i Gymru' competition on S4C.</i></p> <p>3.3 –</p>	

	<p>Estynnwyd dymuniadau pen-blwydd i'r Cyng. Dafydd Richards a ddathlodd pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. <i>Birthday wishes were extended to Cllr. Dafydd Richards who recently celebrated a special birthday.</i></p> <p>3.4 – Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n helpu gyda'r trefniadau ac yn ystod dathliad Dydd Gŵyl Dewi – digwyddiad llwyddiannus iawn. <i>The Chair thanked everyone who helped with the arrangements and during the St.David's day celebration - a very successful event.</i></p>	
4.	<p><b>ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT</b> Roedd PSCO John Evans yn bresennol – cwpwl o bethau i'w adrodd dros y mis diwethaf. <i>PSCO John Evans was present – couple of things to report from the last month.8</i></p>	
5.	<p><b>DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST</b> Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	
6.	<p><b>CADARNHAU COFNODION 19/02/24 / APPROVAL OF MINUTES FROM 19/02/24</b> Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. <i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Rhydian Wilson Eilio/Seconder: Cyng/Cllr Rhian Jones</p>	
7.	<p><b>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</b> 18.1 – Bydd y fan llyfrgell yn parhau i ddod i'r dref – mwy o fanylion i ddilyn. <i>Library van will continue to visit the town – more information to follow.</i></p> <p>19.1 – Clerc wedi adrodd i CLIC ac mae CSC yn ceisio cysylltu gyda'r perchennog i drwsio'r piler gan ei fod ar dir preifat ac nid ar y briffordd. <i>Clerk has reported to CLIC and CCC are trying to contact the owner to fix the pillar as it's on private land and not the highway.</i></p>	
8.	<p><b>CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL</b> A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i></p> <p>Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cyngorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• 23/02/2024 – A.Heal – Ariannu Gardd Gymunedol Tregaron – Cynllun Lle / <i>Tregaron Community Garden Funding – Place Plan</i></li> <li>• 23/02/2024 – Cynllun Tai Cymunedol Ceredigion Community Housing Scheme</li> <li>• 29/02/2024 – Cyhoeddi Notis Statudol / <i>Statutory Notice Publication</i></li> <li>• 07/03/2024 – Adroddiad Pwyllgor Moesog a Safonau / <i>Ethics and Standards Committee Reports – At eich sylw / For your attention</i></li> <li>• 07/03/2024 – Casglu barn ledled Canolbarth Cymru ar ddefnyddio ynni a thrafnidiaeth / <i>Opinions sought across Mid Wales on energy and transport use.</i></li> <li>• 07/03/2024 – Hyfforddiant ar y Côt Ymddygiad / <i>Code of Conduct Training</i></li> </ul>	

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 08/03/2024 – Cynrychiolwr Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion / <i>Town &amp; Community Councillor Representative for Ceredigion County Council's Ethics and Standards Committee</i></li> <li>• 11/03/2024 Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: A485 Tynreithyn, Tregaron – wedi ail agor/reopened.</i></li> <li>• 14/03/2024 – Cronfa Cynnal y Cardi <i>Fund Dyddiad Cau Hanner Nos 25.03.24 / Closing Date 25.03.24 Midnight</i> Pawb yn gytûn i'r Clerc wneud cais i'r gronfa. Clerc i gysylltu â'r Cadeirydd i gwblhau a chyflwyno'r cais. <i>All in agreement for the Clerk to apply to the fund. Clerk to liaise with the Chair to complete &amp; submit the application.</i></li> </ul> <p>B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></li> </ul> <p>C) Diweddariad o'r cyfarfod 12/02/2024 / <i>Update from the meeting on 12/02/24 –</i> Dim i'w gofnodi – Clerc a'r Cadeirydd yn cwrdd gyda'r Cyngor Sir yn yr wythnos nesaf. <i>Nothing to report – Clerk &amp; Chair meeting with the County Council in the next week.</i></p>	Clerc / Clerk & Cyng / Cllr Arwel Jones																		
9.	<p><b>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</b></p> <p>A) Taliadau / <i>Payments</i></p> <p>Balans y Banc Mawrth / <i>March Bank Balance –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrif Busnes Cyfredol / <i>Business Current – £13,900.17</i></li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve – £17,206.10</i></li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Current (Cadeirydd / Chairman) – £3,631.76</i></li> <li>• Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve (Gratuity) – £592.84</i></li> </ul> <p><u>Taliadau mis Chwefror / <i>February payments –</i></u></p> <table border="0" style="width: 100%;"> <tr> <td>• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i></td> <td style="text-align: right;">£291.90</td> </tr> <tr> <td>• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i></td> <td style="text-align: right;">£301.70</td> </tr> <tr> <td>• HMRC</td> <td style="text-align: right;">£148.20</td> </tr> <tr> <td>• Neuadd Goffa Tregaron (Llogi ystafell/<i>Room Hire</i>)</td> <td style="text-align: right;">£190.20</td> </tr> <tr> <td>• Smith of Derby (Cloc Neuadd Goffa/<i>Memorial Hall Clock</i>)</td> <td style="text-align: right;">£357.60</td> </tr> <tr> <td>• Glasdon (Bagiau baw cŵn/<i>dog waste bags</i>)</td> <td style="text-align: right;">£166.92</td> </tr> <tr> <td>• Pugh Computers (Microsoft 360)</td> <td style="text-align: right;">£148.32</td> </tr> <tr> <td>• Promultis (Digital Board Fee 22/23 &amp; 23/24)</td> <td style="text-align: right;">£1,987.20</td> </tr> <tr> <td>• Argraffwyr Lewis + Hughes (Printio / <i>Printing 2023-24</i>)</td> <td style="text-align: right;">£176.94</td> </tr> </table> <p>Cynnig/<i>Proposed: Cyng/Cllr Rhian Hughes</i> Eilio/<i>Seconder: Cyng/Cllr Rhydian Wilson</i></p> <p><u>Bwrdd Digidol / <i>Digital Board –</i></u> Derbyniwyd anfoneb ar gyfer costau Meddalwedd a Thrwyddedau ar gyfer 2022/23, 2023/24 a 2024/25 am £2,836.80 - trafodwyd a phenderfynwyd talu am 2022/23 a</p>	• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i>	£291.90	• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i>	£301.70	• HMRC	£148.20	• Neuadd Goffa Tregaron (Llogi ystafell/ <i>Room Hire</i> )	£190.20	• Smith of Derby (Cloc Neuadd Goffa/ <i>Memorial Hall Clock</i> )	£357.60	• Glasdon (Bagiau baw cŵn/ <i>dog waste bags</i> )	£166.92	• Pugh Computers (Microsoft 360)	£148.32	• Promultis (Digital Board Fee 22/23 & 23/24)	£1,987.20	• Argraffwyr Lewis + Hughes (Printio / <i>Printing 2023-24</i> )	£176.94	Clerc / Clerk
• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i>	£291.90																			
• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i>	£301.70																			
• HMRC	£148.20																			
• Neuadd Goffa Tregaron (Llogi ystafell/ <i>Room Hire</i> )	£190.20																			
• Smith of Derby (Cloc Neuadd Goffa/ <i>Memorial Hall Clock</i> )	£357.60																			
• Glasdon (Bagiau baw cŵn/ <i>dog waste bags</i> )	£166.92																			
• Pugh Computers (Microsoft 360)	£148.32																			
• Promultis (Digital Board Fee 22/23 & 23/24)	£1,987.20																			
• Argraffwyr Lewis + Hughes (Printio / <i>Printing 2023-24</i> )	£176.94																			

	<p>2023/24 yn unig yn y flwyddyn ariannol hon ac y swm £849.60 sy'n weddill yn y flwyddyn ariannol nesaf a gofyn i Promultis gwblhau'r gwaith adeiladu meddalwedd erbyn mis Ebrill.</p> <p><i>An invoice has been received for Software &amp; Licence costs for 2022/23, 2023/24 &amp; 2024/25 for £2,836.80 - it was discussed and decided to only pay for 2022/23 &amp; 2023/24 in this financial year and for the remaining £849.60 next financial year and ask Promultis to complete the software build by April.</i></p> <p>Cynnig/Proposed: Cyng/Cllr Catherine Hughes Eilio/Secunder: Cyng/Cllr Meirian Morgan</p> <p>B) Incwm / Income – Dim incwm / No Income</p> <p>C) Cyllideb 2024/2025 Budget</p> <p>Cyflwynodd y Clerc wybodaeth am y sefyllfa ariannol diweddaraf a'r gyllideb am 2024/25. Praesept 2024/2025 yn £25,000 gyda unrhyw ddifyg yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn. Roedd y Cadeirydd wedi gofyn i'r holl Gynghorwyr gael golwg ar y gyllideb cyn y cyfarfod i weld lle y gellid gwneud arbedion - cafwyd trafodaeth, a nodwyd rhai meysydd fel arbedion. Unwaith y byddwn wedi cyfarfod gyda CSC ynglŷn â'r toiledau a thorri gwair dylem gael gwell syniad o gostau'r gwasanaethau hyn hefyd.</p> <p><i>The Clerk presented an update on the financial position and a budget for 2024/25. The 2024/2025 precept has been set at £25,000 and any deficit being funded from reserves. The Chair had asked all Cllrs to have a look at the budget prior to the meeting and see where savings could be made – a discussion was held, and some areas were identified as savings. Once we have met with CCC with regards to the toilets and grass cutting we should have a better idea of costs for these services as well.</i></p>	
10.	<p><b>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER'S REPORT</b></p> <p>Dim i'w gofnodi.</p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid.</li> <li>• Glanhau strydoedd eraill yn eu tro.</li> </ul> <p>Bydd angen ymgynghori gyda'r gweithiwr Strydlun i drafod y newidiadau fydd mewn lle o 1af Ebrill ymlaen o ran cymryd gwasanaethau ychwanegol gan CSC. Y Cadeirydd i gwrdd â'r gweithiwr Strydlun i drafod a rhoi gwybod iddo am y gwasanaethau ychwanegol sy'n cael eu cymryd.</p> <p><i>Nothing to report.</i></p> <p><i>The following needs to be done –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydefendigaid Road.</i></li> <li>• <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i></li> </ul> <p><i>It will be necessary to consult with the Street scene worker to discuss the changes that will be in place from 1st April onwards with regards to taking on extra services from CCC. Chair</i></p>	Cyng / Cllr Arwel Jones

	<i>to meet with the Street scene worker to discuss and inform him of the additional services that are being taken on.</i>												
11.	<p><b>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</b></p> <p>A) <u>Parc a Blodau / Park &amp; Flowers</u></p> <p>a) <u>Parc / Park</u> Gwiriadau bob pythefnos Iechyd a Diogelwch y Parc i barhau - bydd y Cyng. Rhian Hughes yn cynnal y gwiriadau yn Mawrth/Ebrill. Diolchwyd i Cyng Rhian Hughes am wneud mis diwethaf. Gwiriadau bob pythefnos i'w wneud dros y gaeaf. <i>Fortnightly Health &amp; Safety checks of the Park to continue – Cllr Rhian Hughes will carry out the checks for March/April. Thanks was extended to Cllr Rhian Hughes for doing last month. Fortnightly checks to be carried out over the winter.</i></p> <p>b) <u>Blodau / Flowers</u> Defnyddio 6 pot eleni ac i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf wrth drafod y tendrau. <i>Use 6 pots this year and to be discussed further next meeting when discussing the tenders.</i></p> <p>c) <u>Tendr Blodau a Torri Porfa / Flowers &amp; Grass Cutting tender</u> Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau fydd 12 Ebrill a byddant yn cael eu trafod yng nghyfarfod mis Ebrill. <i>Deadline for tenders' submission will be 12th April and they will be discussed at the April meeting.</i></p>				Cyng/Cllr Rhian Hughes								
12.	<p><b>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS</b></p> <p>Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / <i>The Town Council's main priorities are -</i></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i></li> <li>2) Cae pob tywydd &amp; Trac Rhedeg / <i>All weather pitch &amp; Running Track</i></li> <li>3) Stondinau beiciau &amp; Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i></li> <li>4) Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i></li> <li>5) Prosiect Peilot Cau y Sgwâr / <i>Pilot project to close the main Square Closure</i></li> </ol> <p>Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2024 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones, Dewi Evans a Rhydian Wilson i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau. <i>The Town Council's main priority for 2024 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones, Dewi Evans and Rhydian Wilson to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.</i></p> <p>Clerc wedi drafftio Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain – <i>Clerk has drafted a Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –</i></p> <table border="1" data-bbox="185 1881 1372 2038"> <thead> <tr> <th></th> <th>Prosiect / Project</th> <th>Pwy / Who</th> <th>Diweddariad / Update</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>1.</td> <td>Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i></td> <td>Cyng/Cllr Arwel Jones, Rhydian</td> <td>Ar waith  <i>Ongoing</i></td> </tr> </tbody> </table>				Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update	1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones, Rhydian	Ar waith  <i>Ongoing</i>		
	Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update										
1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones, Rhydian	Ar waith  <i>Ongoing</i>										

		Wilson & Dewi Evans	
2.	Stondinau beiciau & Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
3.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes	Aros am y brydles gan CSC <i>Waiting for the lease from CCC</i>
4.	Map o'r dref / <i>Town Map</i>	Cyng/Cllr Catherine Hughes Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
5.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / <i>Town Website &amp; Digital Board</i>	Cyng/Cllr Rhydian Wilson & Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
6.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>
7.	Gwobr Gŵyl Dewi / <i>St. David's Day Award</i>	Cyng/Cllr Gwion James	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
8.	Pared Gŵyl Dewi / <i>St. David's Day Parade</i>	Cyng/Cllr Catherine Hughes	Ar waith <i>Ongoing</i>
9.	Llyfryn Llwybrau Tregaron / <i>Tregaron Trails booklet</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Rhydian Wilson	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
<p><u>1. Llwybr Ystwyth / Ystwyth Trail</u> Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda CNC a thrafodaethau anffurfiol gyda rhai perchnogion tir. Mae pethau'n symud ymlaen yn araf, bydd diweddariad arall yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf. <i>Discussions have taken place with NRW and informal discussions with some landowners. Things are moving forward slowly, another update will be given at next meeting.</i></p> <p><u>6. Gwefan / Website –</u> Clerc i gysylltu â Gwe Cambrian i drafod cwblhau y wefan. <i>Clerk to contact Gwe Cambrian to discuss the completion of the website.</i></p> <p><u>7. Gwobr Gŵyl Dewi / St. David's Day Award</u> Adborth gan aelodau'r panel – hoffi'r syniad o'r wob, awgrymwyd mwy o gategoriâu y flwyddyn nesaf (Unigolyn / Mudiad / Person Ifanc) ac yn hapus i fod yn aelod o'r panel eto'r flwyddyn nesaf os oes angen. <i>Feedback from panel members – like the idea of the award, suggested more categories next year (Individual / Organisation / Young Person) and happy to be a panel member again next year if needed.</i></p>			
13.	<p><b>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS</b></p> <p>1 – <b>Rhif y Cais / Application: A240152</b></p>		

	<p><b>Ymgeisydd / Applicant:</b> Rh. Evans Cig Oen Caron  <b>Safle / Site:</b> Mart Tregaron / <i>Market Premises Office, Tregaron Cattle Market, Tregaron, SY25 6HX</i>  <b>Y bwriad / Intention:</b> <i>Proposed self serve meat vending machine building</i></p> <p>Dim gwrthwynebiad / <i>No objection</i></p> <p>2 –</p> <p><b>Rhif y Cais / Application:</b> A240138  <b>Ymgeisydd / Applicant:</b> Cornerstone  <b>Safle / Site:</b> Tir yn y goedwig / <i>Land at forest clearing West Tregaron Forest, Tregaron, SY25 6NN</i>  <b>Y bwriad / Intention:</b> <i>The installation of a 40m lattice tower supporting 3 no. antennas, 2 no. 0.6m dishes; 2 no. equipment cabinets, 1 no. meter cabinet, generator, solar power solution and associated ancillary equipment enclosed within a 1.8m fenced compound for the Shared Rural Network project on behalf of Cornerstone (Amendment to previously approved application A230382)</i></p> <p>Dim gwrthwynebiad / <i>No objection</i></p>	Clerc / Clerk
14.	<p><b>CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED</b>  Dim i'w gofnodi  <i>Nothing to report</i></p>	
15.	<p><b>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES</b>  Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cyngorwyr cyn y cyfarfod.  <i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <p>Mae'r Clerc a'r Cadeirydd wedi enwebu'r Cyngor ar gyfer gwobr Un Llais Cymru yn y categori 'Prosiect Treftadaeth Gorau'. Mae'r Panel wedi cyfarfod ac mae gwaith y cyngor wedi'i gydnabod ac wedi ennill gwobr. Nid ydynt allu dweud ar hyn o bryd a ydyn yn enillydd categori neu a ydym wedi cael canmoliaeth uchel neu ganmoliaeth - y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ar y diwrnod pan fydd tlysau a thystysgrifau yn cael eu cyflwyno yn ystod cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru. Y prosiect a enwebwyd ar gyfer y wobwr yw'r 'Cylch Cerrig'.</p> <p>Bydd angen i gynrychiolwyr o'r Cyngor fynychu'r Gynhadledd ar 27ain Mawrth a gwneud cyflwyniad 10-15 munud ar y prosiect a gwaith y Cyngor. Y Cyng. Owain Pugh, Rhydian Wilson ac Arwel Jones i fynychu ar ran y Cyngor.</p> <p><i>The Clerk and Chairman have nominated the Council for the One Voice Wales award in the 'Best Heritage Project' category. The Panel has met, and the council's work has been recognised. They can't inform us at this stage whether we are a category winner or whether the council has been highly commended or commended - that information will be shared on the day when trophies and certificates will be presented during the One Voice Wales conference. The project nominated for the award is the 'Cylch Cerrig'.</i></p> <p><i>Representatives from the Council will need to attend the Conference on 27th March and do a 10–15-minute presentation on the project and the work of the Council. Cllr. Owain Pugh, Rhydian Wilson and Arwel Jones to attend on behalf of the Council.</i></p>	Cyng / Cllr Owain Pugh, Rhydian Wilson & Arwel Jones

16.	<p><b>PROSIECT CYLCH CARON / CYLCH CARON PROJECT</b> Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
17.	<p><b>HYFFORDDIANT AELODAU'R CYNGOR / COUNCIL MEMBERS TRAINING</b> a) Hyfforddiant Côt Ymddygiad – E-bost oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion yn holi os fyddent yn darparu Hyfforddiant Côt Ymddygiad ac a fyddai gan y Cyngor Tref ddiddordeb - Clerc wedi ymateb ac yn aros am ateb.  <i>Email from Ceredigion County Council with regards to if they were to provide Code of Conduct Training would the Town Council be interested - Clerk has responded and waiting for a reply.</i></p>	Clerc / Clerk
18.	<p><b>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</b> 18.1 - E-bost oddi wrth Belltown Power i drafod Hwb Ynni Gwynt Waen Maenllwyd – eisiau mynychu cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor – Clerc i'w gwahodd i gyfarfod mis Ebrill. <i>Email from Belltown Power to discuss Waen Maenllwyd Wind Energy Hub – wants to attend a meeting to present information to the Council – Clerk to invite to the April meeting.</i></p> <p>18.2 - Cyfle Cymru – gwybodaeth am y prosiect / <i>information on the project.</i></p> <p>18.3 - Cais am gefnogaeth / <i>Request for Support</i> – Mynyddoedd Cambrian Mountains.</p> <p>18.4 - Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2024 / <i>Independent Remuneration Panel for Wales Annual Report – February 2024.</i></p> <p>18.5 - Rhodri Francis, Cered – Clwb Rhedeg Tregaron <i>Running Club.</i></p> <p>18.6 - Hysbysiad Archwilio / <i>Audit Notice 2024.</i></p> <p>18.7- Cymorth Ariannol / <i>Financial Assistance</i> – - Clwb C.Ff.I Ceredigion YFC - HAHAV - Ymgyrch Apêl Eisteddfod Genedlaethol 2024 / <i>Appeal Campaign National Eisteddfod 2024</i></p>	Clerc / Clerk
19.	<p><b>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</b> 19.1 – Cyng./Cllr Rhian Hughes – Lamp stryd ar heol Llanbedr Pont Steffan ddim yn gweithio. <i>Street lamp on Lampeter road not working.</i></p>	



	<p>19.2 – Cyng./Cllr Catherine Hughes – Capel Wesley, Heol Dewi - mae nifer o blant a phobl ifanc wedi bod yn treulio amser ac yn chwarae yno ac yn taflu cerrig mawr ar y palmant a'r ffordd - nid yw'r ardal yn ddiogel. <i>Wesley Chapel, Dewi Road - a few children and young people have been spending time and playing there and throwing large stones on to the pavement and road - the area is unsafe.</i></p> <p>19.3 – Cyng./Cllr Rhydian Wilson – Mae'r Ganolfan Hamdden newydd ddarganfod eu bod wedi bod yn talu am oleuadau stryd yr Ystad Ddiwydiannol - bydd hwn nawr yn cael ei ddiffodd felly ni fydd unrhyw oleuadau ar y stad ddiwydiannol yn ystod y nos. <i>The Leisure Centre have just found out that they have been paying for the Industrial Estates street lights - this will now be switched off so no lights will be on the industrial estate during the night.</i></p> <p>19.4 – <u>Tregaron 2050</u> Cyflwynodd y Cyng. Rhydian Wilson syniad o sefydlu mudiad Datblygu Cymunedol yn Nhregaron i gynhyrchu incwm a helpu i gynnal y dref.</p> <p>Pawb yn gytûn â'r syniad ond eisiau mwy o wybodaeth er mwyn trafod ymhellach. Y Cyngorydd Wilson i wneud fwy o ymchwil a chasglu mwy o wybodaeth i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol. Hefyd, chwilio am enghreifftiau mewn cymunedau eraill o fentrau o'r fath. Cynghorwyr eraill sydd â diddordeb yn hyn i weithio gyda'r Cyng. Wilson i ymchwilio ymhellach.</p> <p><i>Cllr Rhydian Wilson presented an idea of setting up a Community Development organisation in Tregaron to generate income and help sustain the town.</i></p> <p><i>All in agreement with the idea but would like more information to discuss further. Cllr Wilson to do more research and gather more information to discuss at a future meeting. Also, to look for examples in other communities of such enterprises. Other Cllrs who are interested in this to work with Cllr. Wilson to research further.</i></p>	Cyng / Cllr Rhydian Wilson
20.	<p>Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal nos Lun Ebrill 15fed 2024 am 7.00pm. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron.</p> <p><i>The next monthly meeting will be held on Monday 15<sup>th</sup> April 2024 at 7.00pm. It will be held at Tregaron Memorial Hall.</i></p>	
21.	Terfynwyd y cyfarfod / Meeting was closed	